Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Perfformiad**
Dyddiad y cyfarfod	**14 Gorffennaf 2022**
Aelod / Swyddog Arweiniol	**Cynghorwyr Elen Heaton a Gill German / Nicola Stubbins / Ann Lloyd / Rhiain Morrlle**
Awdur yr adroddiad	**Ann Lloyd**
Teitl	**Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 22**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Rhaid i Gyfarwyddwr Statudol pob Gwasanaeth Cymdeithasol yng Nghymru lunio adroddiad blynyddol sy'n crynhoi eu safbwynt ar effeithiolrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod a gwelliannau i'w blaenoriaethu.

1.2. Mae'r adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2021 - 2022 ynghlwm yn Atodiad 1. Diben yr adroddiad yw rhoi darlun teg i'r cyhoedd o wasanaethau yn Sir Ddinbych ac arddangos dealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r heriau a wynebir.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I alluogi'r Aelodau i graffu ar yr adroddiadau blynyddol drafft cyn iddynt gael eu cyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau yn ystyried a yw'r adroddiadau'n rhoi disgrifiad clir o berfformiad yn 2021 - 2022

3.2. Bod yr Aelodau yn ystyried a yw'r adroddiad yn codi unrhyw faterion/pryderon perfformiad sydd angen eu harchwilio ymhellach

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Yn gyffredinol mae ein perfformiad yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, gyda rhai gwelliannau mewn meysydd fel y nifer o blant sydd wedi dychwelyd o ofal i'w cartref a'r nifer o asesiadau ar gyfer plant wedi eu cwblhau o fewn amserlenni statudol. Mae hyn ar adeg pan rydym yn gweld materion recriwtio a chadw sylweddol yn dilyn Covid-19 a chymhlethdod o'r angen ar gyfer y sawl sy'n ymuno â gwasanaethau statudol yn cynyddu.

4.2. Drwy gydol eleni, mae'r flaenoriaeth wedi cynnwys cynnal capasiti ac adnoddau i gyflawni ein gwasanaethau statudol sydd wedi cyfyngu ein gallu i ddatblygu a gwneud cynnydd gymaint ag y dymunwn. Fodd bynnag, rydym wedi datblygu ein harfer arloesol a chreadigol a ddatblygwyd yn ystod Covid a'r cyfnod clo.

4.3. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gwneud cynnydd da i wella a chefnogi gwasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc, yn ogystal â datblygu Siarter Gofalwyr ar y cyd â'n Grŵp Strategaeth Gofalwyr. Er bod yna fwy o waith i'w wneud i nodi gofalwyr anffurfiol a bydd y gwaith hwn yn cael eu ddatblygu drwy Gynllun Gweithredu Cyflwr Gofal Sir Ddinbych.

4.4. Er bod gwaith cwblhau canolfan Bwthyn y Ddôl wedi'i ohirio, mae'r tîm amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu ac yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar ffiniau gofal.

4.5. Mae gwasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant yn datblygu ac yn ehangu eu Tîm ar Ffiniau Gofal i ddarparu ymyrraeth gynnar ac ataliad i'r unigolion a'r teuluoedd hynny sydd fel arall angen cefnogaeth gan wasanaethau statudol.

4.6. Wrth symud i 2022 - 2023 byddwn yn:

- Sefydlu gwaith yr Ymgynghorwyr Byw'n Annibynnol i gefnogi unigolion a theuluoedd i dderbyn eu gofal a chefnogaeth drwy daliad uniongyrchol fydd yn cynyddu'r dewis a rheoli eu gofal ac anghenion cefnogaeth.
- Parhau i gefnogi datblygiad microfentrau drwy ein partneriaeth gyda Chatalyddion Cymunedol i wella cyfleoedd i fentrau gofal a chefnogaeth bach ar draws y sir ond yn arbennig yn yr ardaloedd gwledig.
- Paratoi ar gyfer gweithredu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid a fydd yn disodli'r Safonau Colli Rhyddid presennol.

- Datblygu darpariaeth fydd yn darparu llety gyda chefnogaeth ddwys sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn barhaus ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal gyda'r angen mwyaf cymhleth.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud yn benodol â'n cyfraniad at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol:

- Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid yw cynhyrchu a chyhoeddi'r adroddiadau blynyddol yn costio unrhyw beth ac eithrio amser swyddog, ac nid yw'n effeithio ar wasanaethau eraill. Bydd cynlluniau a chamau gweithredu'r dyfodol a nodwyd ar gyfer y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'r Gwasanaethau Addysg a Phlant o fewn yr adroddiad yn cael eu cyflawni o fewn cyllidebau presennol, neu trwy gyllid partneriaeth, megis y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiadau blynyddol eu hunain gan eu bod yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad ac nid yw cyhoeddi'r adroddiad yn cael unrhyw effaith bosibl ar genedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Les mewn perthynas ag unrhyw gynlluniau'r dyfodol neu ddatblygiad gwasanaethau a soniwyd amdanynt yn yr adroddiadau blynyddol hyn, pan fo angen.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ynglŷn â'n gwasanaethau yn ffurfio rhan o'n system sicrwydd ansawdd presennol ac o’r herwydd, wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad yr adroddiadau blynyddol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'n rhaid i oblygiadau cost unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn yr adroddiadau blynyddol gael eu hystyried yng nghyd-destun sefyllfa gyllidebol ehangach a Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae cofrestr risg manwl ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth Cymunedol a’r Gwasanaethau Addysg a Phlant. Gan fod yr adroddiadau hyn am y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir Ddinbych, mae unrhyw risgiau sy’n gysylltiedig â’r materion a gwmpesir gan yr adroddiad hwn (ac unrhyw gamau i liniaru a’u rheoli) yn cael eu dal yn y cofrestri risg gwasanaeth.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Canllawiau Statudol (gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi adroddiad blynyddol) yn cael eu cyhoeddi o fewn y Cod Ymarfer ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

11.2. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.3. Mae Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau craffu mewn perthynas â monitro perfformiad ac amcanion polisi.